# Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl 19/09/26

## LLÊN

**CYSTADLEUAETH Y GADAIR:**
**(Cynhelir Seremoni'r Cadeirio am 6.00 y.h.)**

*Cerdd Gaeth neu Rydd heb fod dros 100 llinell ar y testun 'Cysgod/Cysgodion'*
Gwobr: Cadair a rhodd o £50 gan yr eisteddfod

| | |
|---|---|
| TELYNEG: 'Hafan' | 1af. £10. 2il £5. 3ydd. £3. |
| ENGLYN YSGAFN: 'Toriad/Toriadau' | 1af. £10. 2il £5. 3ydd. £3. |
| YSGRIF NEU STORI: 'Tylwyth/Teulu' | 1af. £10. 2il £5. 3ydd. £3. |
| BRAWDDEG: Ar y gair 'Cymdogaeth' | 1af. £10. 2il £5. 3ydd. £3. |
| LIMRIG: 'Mae 'Steddfod Y Tymbl yn dathlu' | 1af. £10. 2il £5. 3ydd. £3. |
| **CYFANSODDI EMYN** DÔN I'R GEIRIAU ISOD | 1af. £10. 2il £5. 3ydd. £3. |

### Emyn Heddwch

O Arglwydd Dduw trugarog
Rho heibio bob rhyw gledd,
Ac atal unrhyw rhyfel
A dyro fythol hedd.
Rho ddiwedd ar ddioddef
A thristwch yn ein byd,
A dangos mai Duw cariad
Wyt Ti i ni o hyd.

Canmoler Di yn ddyddiol
Am Dy fendithion rhad,
Ac atal unrhyw boenau
A braw a ddaw i'n gwlad.
Bydd i ni oll gytuno,
Na foed na phoen na chur,
Ond dysg ni oll bod gobaith
Drwy loes yr hoelion dur.

Wrth ddiolch i Ti Arglwydd
Am Dy rinweddau lu,
O dyro fyd heb ryfel
Nac unrhyw stormydd du.
Fel bydd i'n barchu'n cyd-ddyn
Wrth fyned ar ein rhawd,
A chofio'r aberth Ddwyfol
A charu pawb fel brawd.

*Megan Richards*

---

Holl waith yr adran uchod i fod yn llaw'r Ysgrifennydd
erbyn dydd Mercher, Awst 26ain 2026

Ysgrifennydd : Anwen Evans,
112 High Street, Y Tymbl, Llanelli, SA14 6HD
*Ffôn :* 01269 833568 *ebost:* anwenevans@live.co.uk

## TLWS YR IFANC

**(o dan 25 oed)**

**Darn o farddoniaeth neu rhyddiaith ar unrhyw ffurf**

**Hyd at 2,000 o eiriau**

**Gwobr : Tlws a rhodd o £30**

**Noddir gan Rhian, Marc a Marged-Alys, Y Tymbl**

## CYSTADLEUAETH I DDYSGWYR
## *COMPETITION FOR LEARNERS*

**Beirniad - Catrin Duncan**

Ysgrifennwch baragraff neu ddau am **"Lle dw i'n byw nawr".**

Byddwn yn disgwyl i'r paragraffau fod yn hirrach os ydych wedi bod yn dysgu Cymraeg am amser hir. Gallwch gymharu lle dych chi'n byw nawr gyda lle oeddech chi'n byw o'r blaen petaech yn dymuno.

Nodwch gyda'ch testun a'ch ffugenw ers pryd dych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg ac os dych chi'n mynd i wersi, pa lefel dych chi e.e. Mynediad, Sylfaen, etc. Peidiwch â defnyddio unrhyw system gywiro na A.I. Dyn ni eisiau gweld eich gwaith chi.

Rhowch eich gwaith mewn amlen gyda'ch ffugenw. Mewn amlen arall wedi ei selio rhowch eich enw cywir, rhif ffôn a chyfeiriad. Rhowch yr amlen hon mewn gyda'r amlen gyntaf. Mae'n bwysig bod y beirniad ddim yn gwybod pwy yw awdur y gwaith. Bydd yr ail amlen ond yn cael ei hagor ar ôl i'r enillwyr gael eu dewis.

*Write a paragraph or two about* ***"Lle dw i'n byw nawr".***

*We will expect the work to be longer and more detailed if you have been learning Cymraeg for a while. If you like you could compare where you live now with where you used to live.*

*Make a note with your composition of a pseudonym and how long you have been going to lessons, which level you are on e.g. Entry, Foundation etc. Please do not use any digital system to correct your work or A.I. We want to enjoy your work.*

*Place your work in an envelope with your pseudonym. In another sealed envelope place your correct name, telephone number and address. Place this envelope in the first envelope. It is important that the adjudication is done blind. This second envelope will only be opened once the winners have been decided.*

**Holl waith yr adran uchod i fod yn llaw'r Ysgrifennydd erbyn dydd Mercher, Awst 26ain 2026**

**Gwobrau: 1af - £20, 2il - £15, 3ydd - £10**

Ysgrifennydd : Anwen Evans,
112 High Street, Y Tymbl, Llanelli, SA14 6HD
*Ffôn :* 01269 833568 *ebost:* anwenevans@live.co.uk